GAPKENYA.COM

Teithlen Dros Dro ar gyfer taith CFfI Maldwyn i Kenya ym mis Awst 2010

Diwrnod 1 Cyrraedd Nairobi ar daith awyren dros nos o Heathrow. Cludiant i Plateau ar fws, gyda golygfeydd trawiadol o'r Rift Valley ar y ffordd. Dechrau gweld a chael teimlad o Kenya a'i phobl. (tua 5 awr)
Cyrraedd Plateau, setlo yn eich llety ac ymlacio ar ôl y daith.

Diwrnod 2 Cyflwyniad ar Ddiogelwch, taith o amgylch y gymuned a chlywed am y projectau. Trefnu'r ddau dîm a'u gwaith project ar gyfer y diwrnod canlynol.

Diwrnod 3 Mae'r SIALENS yn dechrau i'r ddau dîm gyflawni'u project.

Diwrnod 4 Parhau â'r project / prynhawn diwylliannol a chyflwyno 'Tynnu Rhaff'.

Diwrnod 5 Ymweld â'r dref leol a fferm George Smith, yr unig ffarmwr croenwyn ar ôl yn yr ardal. Mae George yn gymeriad â llawer o straeon difyr am ei fywyd yn Kenya i'w dweud. Cinio barbeciw ar fferm George. (tua 1 awr i'r fferm). Gall y rhai oedd eisiau mynd i Rafftio Dˇr Gwyn barhau â'r gwaith project oherwydd fe fyddan nhw i ffwrdd am ddau ddiwrnod.

Diwrnod 6 Parhau â'r project / hyfforddi Tynnu Rhaff – bydd y grˇp Rafftio Dˇr Gwyn yn gadael.

Diwrnod 7 Gwaith project, cinio canol dydd, yna ymweld â Flax a'r gymuned amaethyddol leol.

Diwrnod 8 Gwaith project / hyfforddi Tynnu Rhaff. Bydd y grˇp Rafftio yn dychwelyd.

Diwrnod 9 Gorffen y gwaith project, cynnal agoriad i'r projectau â dathliadau, cystadlaethau chwaraeon, ffeinal y Tynnu Rhaff, a llawer o ganu a dawnsio.

Diwrnod 10 Teithio i Lyn Baringo, heibio i'r Elgeyo Escarpment trawiadol, a gweld y nant i Grocodeils ar y ffordd. Aros yng Ngwersyll Roberts – lle gwych ger y llyn lle y gallwch

wylio’r hipos yn pori fin nos, a bar da! Mynd ar daith cwch yn y prynhawn i weld yr hipos a’r crocodeils, a’r Eryrod Cynffonwyn anhygoel. (tua 2 awr a hanner i Baringo).

Diwrnod 11 Cychwyn yn gynnar i Barc Cenedlaethol Lake Nakuru, gan groesi dros y cyhydedd. Yn y parc, gallech weld llewod, rheinos, jiraff, a llewpart os ydych chi’n lwcus – a llawer o fflamingos ac anifeiliaid hela eraill y gwastatir. Cinio Pecyn mewn man gweld anhygoel – gwyliwch nad ydy’r babˇns yn dwyn eich bwyd! (Tua 2 awr i Nakuru). Dychwelyd i Nairobi (tua 2 awr) am unai taith awyren dros nos yn ôl adre, neu aros am 1 noson yn Nairobi gyda phryd o fwyd yn y Bwyty Carnivore enwog.

Diwrnod 12 Dal yr awyren adre.

Teithlen

Mae’r deithlen yn hyblyg, a gall amrywio yn dibynnu ar faint y grˇp, newidiadau lleol a gofynion projectau.

Hedfan

Mae’r teithiau awyren o faes awyr Heathrow a gallant gael eu bwcio gyda Virgin, BA neu Kenya Airways. Bydd prisiau’r tocynnau yn dechrau ar tua £320.

Fisa

Byddwch angen fisa i fynd i Kenya. Gellir trefnu hyn ymlaen llaw gyda’r Kenyan Embassy yn Llundain am £35, neu yn y maes awyr yn Nairobi am $50.

Yswiriant

Byddem yn eich cynghori i drefnu yswiriant teithio, fel y byddech yn ei wneud gyda phob taith dramor.

Cludiant o un lle i’r llall

Ar y deithlen, rwyf wedi trefnu i fws gludo’r grˇp i Plateau. Byddwch yn cael mwy o flas o’r wlad trwy wneud hyn, ac fe fydd yn rhatach. Ond os hoffech chi hedfan, gallwn drefnu hynny – mae’r daith awyren yn cymryd tua 1 awr ac yn tua £80 y person.

Diddordebau Unigol

Ar wahân i'r prif broject, os oes rhywun â diddordeb mewn helpu mewn ysgolion, ysbytai neu ar fferm yr ysgol, gallant wneud hynny.

Cyfraniad

Fel y trafodwyd yn y cyfarfod, gobeithiwn godi £2,000 i'w rannu rhwng y ddau broject.

Tystysgrifau

Bydd pawb yn y grˇp yn derbyn tystysgrif gwirfoddolwr i ddweud eu bod wedi cwblhau'r project.

Llety

Yn Plateau, byddwch yn aros mewn cymysgedd o fynglos, dorms a phebyll gyda gwelyau a matresi, toiledau sy'n fflysho, trydan, dˇr poeth o dapiau, cawodydd ac ardaloedd i hamddena.

Bydd cymysgedd o bebyll a 'bandas' yng Ngwersyll Roberts.

Bydd cymysgedd o bebyll a dorms yn Nairobi.

Bwyd

Yn Plateau bydd 3 pryd bwyd ar eich cyfer, wedi'u trefnu yn y pris – i frecwast byddwch yn cael bara, jam, marmalêd, creision fld ayb. Byrbryd (snac) i ginio. I swper, byddwch fel arfer yn cael amrywiaeth o 'bolognese', cawl, pasta a ffrwyth, madazi (donyts lleol).

Tra ar saffari yn Baringo a Nakuru, ni fydd prydau bwyd wedi'u trefnu i chi. Gallwch brynu bwyd o'r gwersylloedd am brisiau rhesymol iawn – tua £4 am bryd gyda'r nos, £2 am frecwast (yr un). Gallwch unai archebu prydau bwyd i'r grˇp cyfan ymlaen llaw, neu gall pobl archebu bwyd yn unigol. Fel arfer, mae hi'n well bwcio ymlaen llaw, er mwyn gwneud yn siˇr fod popeth ar gael ac nad ydyn nhw'n rhedeg allan o fwyd!!!

Staff

Yn Plateau fe fyddaf i a Hugh Chapman gyda'r grˇp i ofalu amdanoch, yn ogystal â Chogydd a Mr David Komen, sef Rheolwr Cyswllt Cymuned Gapkenya.

Costau

Mae cost y daith wedi'i seilio ar grˇp o 35 o bobl yn dilyn y deithlen uchod, ac mae'n cynnwys y canlynol:

Cludiant i Plateau
Cyflwyniad ar ôl cyrraedd
Llety yn Plateau
Bwyd yn Plateau (7 diwrnod)
Cydlynydd Project
Cogydd yn Plateau
Taith Fferm Sirikwa
Taith Gymuned Flax
Cludiant i'r Saffari
Costau Parcio
Llety yng Ngwersyll Roberts
Llety yn Nairobi
Cludiant i'r Maes Awyr

£240 y person am 10 diwrnod

Mae'r swm yma'n debygol o newid ar gyfer 2010, ond ni fydd yn fwy na £350.

£35 Fisa
£25 Yswiriant (amcangyfrif)
£350 Taith Awyren (amcangyfrif)
£650 Cyfanswm

Byddwch angen pres i'w wario ar bresantau, ac ar gyfer prynu bwyd ar y Saffari, ac os oes rhai ohonoch eisiau mynd ar y daith cwch, £4 y person yw'r pris – ond mae'n werth pob ceiniog! Mae'n bosib y gall costau amrywio ychydig yn lleol, ond roedden nhw'n gywir ar yr adeg y cawson nhw'u hysgrifennu.

Gapkenya
The Old Farmhouse, Pen y Banc, Oakley Park, Llandinam, Powys, SY17 5BE

Ffôn: 01686 412042

Ebost: info@gapkenya.com